No.

# PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 9 Ionawr, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd A.M. Collins (Cadeirydd); Cynghorydd B. Loveluck-Edwards (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, G.M. Ball, I. Buckley, S. Campbell, G.D.D. Carroll, S.M. Hanks, W.A. Hennessy, M.J.G. Morgan a S.D. Perkes.

Hefyd yn bresennol: C. Ireland (Cynrychiolydd Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro), G. Doyle, D. Dutch (Cynrychiolwyr o Weithgor/Panel Tenantiaid), Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), S.J. Haines, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), Dr. I.J. Johnson, E. Williams (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd) ac M. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

## 591 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

## 592 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan V. John a H. Smith (Cynrychiolwyr o Weithgor / Panel Tenantiaid).

## 593 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr, 2022 fel cofnod cywir.

## 594 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## 595 ATAL BENTHYCA SIARC CYMRU –

Rhoddwyd cyflwyniad gan y Swyddog Cyswllt Cleientiaid yn Uned Benthyg Arian Anghyfreithlon Cymru (a adwaenir bellach fel Uned 'Stopiwch Siarcod Benthyg Arian Cymru' (SSBAC), a osododd allan y canlynol:

- Cefndir yr uned, ei chyllido gan Lywodraeth y DU i ymchwilio i ac erlyn benthycwyr arian anghyfreithlon (a adwaenir hefyd fel 'siarcod benthyg arian') trwy Gymru gyfan, a'r ffaith fod yr uned yn cael ei chynnal yn awr gan y Cyd-Wasanaethau Rheolaethol ym Mro Morgannwg.
- Trefniadaeth a strwythur yr uned, h.y., yr ymchwilwyr sy'n casglu'r dystiolaeth i helpu i erlyn siarcod benthyg arian a'r swyddogion cyswllt cleientiaid, sy'n cyfuno cefnogaeth i ddioddefwyr gyda chodi ymwybyddiaeth a hyfforddi.
- Y diffiniad o 'siarc benthyg arian' (h.y., benthyg arian heb yr awdurdod na'r rheoleiddio priodol gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol) a'u cysylltiad â mathau eraill o droseddu fel rhan o'u gweithgareddau, e.e., ymosod, difrod troseddol, blacmel a herwgipio yn ogystal â benthyg arian yn anghyfreithlon.
- Disgrifiwyd nodweddion a 'modelau busnes' siarcod benthyg arian, h.y., targedu unigolion bregus (fel pobl ag anableddau, grwpiau lleiafrifol a'r rheiny sy'n dioddef effaith yr argyfwng costau byw) trwy gyfeillion neu deulu ('clywed ar lafar') a thrwy grwpiau eraill, gyda benthyciadau ar gyfraddau llog afresymol. Y mae hyn yn tueddu i fod yn fath 'lleol' iawn o drosedd, er y cafwyd rhai enghreifftiau o fenthyg arian yn anghyfreithlon ar-lein. Y mae dynion a menywod yn ymwneud â hyn, yn ogystal â'r defnydd o 'rwydo' dioddefwyr posib.
- Cyfeiriwyd at astudiaeth achos y 'Money Man', oedd yn dangos effeithiolrwydd defnyddio Deddf Elw Troseddau 2002 i adennill symiau sylweddol o arian oddi wrth y troseddwyr hyn (a'r posibilrwydd o roi'r arian yn ôl i'r dioddefwyr) yn hytrach na'r dedfrydu a'r cosbi mwy traddodiadol.
- Rhannwyd ffigyrau hefyd am nifer y digwyddiadau y cafwyd adroddiadau amdanynt, yr ymchwiliadau a'r erlyniadau a ddigwyddodd yng Nghymru gyfan, yn ogystal â mynd i fwy o fanylion am ddigwyddiadau penodol i Gaerdydd a Bro Morgannwg (h.y., gwybodaeth gan dîm Lloegr ynghylch benthycwyr anghyfreithlon arlein yng Nghaerdydd a Llanilltud Fawr).
- Esboniwyd 'ail-lansio' yr uned hon a'i gwaith ym mis Hydref 2022, a'i ail-enwi yn 'Stopiwch Siarcod Benthyg Arian Cymru', gan symud i ffwrdd oddi wrth derminoleg fel 'adrodd' ac at 'dywedwch wrthon ni' er mwyn gwneud yn glir i'r cyhoedd beth oedd eu rôl, a'i gwneud yn haws mynd at y gwasanaethau ac ymwneud â hwy. Gwnaed hyn ar y cyd â mwy o bresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol, defnyddio'r wefan, a 'llinell gymorth' 24 awr yr uned.
- Byddid yn cynnal ymchwil ledled Cymru am raddfa siarcod benthyg arian yn 2023 trwy gyllid gan Lywodraeth Cymru.
- Rôl yr hyfforddiant di-dâl a ddarperir gan uned SSBAC i'r sawl fyddai â diddordeb, e.e., i 21 aelod o Dîm Tai y Cyngor, a 48 aelod o staff Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog, cododd y Pwyllgor y cwestiynau a'r sylwadau canlynol:

- Mewn ateb i gwestiwn y Cynghorydd Carroll am 'gwmpas' daearyddol siarcod benthyg arian, h.y., rhwng cymunedau cyfagos yng Nghaerdydd a'r Fro, esboniwyd y byddai siarcod benthyg arian fel arfer yn gweithredu mewn un ardal benodol ac yn tueddu i beidio ag ymestyn i ardaloedd cyfagos.

- Mewn ateb i gwestiwn y Cynghorydd Hennessy am faint o siarcod benthyg arian oedd yn gweithredu ym mro Morgannwg, dywedwyd nad oedd niferoedd penodol ar gael, yn bennaf oherwydd natur 'gudd' benthyg arian yn anghyfreithlon. Dyma'r rheswm, er mwyn helpu i chwalu stigma dioddefwyr siarcod benthyg arian a'u bod yn ofni dod ymlaen, fod yr uned yn codi ymwybyddiaeth ac yn cynnig hyfforddiant er mwyn ei gwneud yn haws adnabod troseddau o'r fath ym Mro Morgannwg a mannau eraill. Holodd y cynghorydd hefyd am hyfforddiant am weithgareddau siarcod benthyg arian i'r Pwyllgor, ac awgrymwyd wedyn y dylid ymestyn hyn i'r holl Aelodau Etholedig, trwy ymgynghoriad â'r Gwasanaethau Democrataidd a'r SSBAC.
- Holodd y Cynghorydd Aviet, fel yn achos dioddefwyr camdriniaeth ddomestig, a allai'r bobl hynny oedd wedi dod ymlaen ac wedi eu nodi fel dioddefwyr siarcod benthyg arian dderbyn larymau i'w cartrefi a mesurau diogelu eraill. Esboniwyd, petai perygl yn y fan a'r lle, y byddid yn ceisio cymorth yr heddlu yn syth. Byddai'r uned SSBAC hefyd am gynorthwyo gyda mesurau diogelu eraill lle nad oedd perygl yn syth, e.e., gosod TCC, gwneud blychau llythyrau yn ddiogel rhag tân, adleoli teuluoedd i lety dros dro, etc.
- Dymunai'r Is-Gadeirydd dynnu sylw at effaith 'tlodi mewn gwaith' o ran gwneud pobl yn fwy agored i weithgareddau siarcod benthyg arian, a holodd a oedd yr Uned SSBAC  yn ystyried gweithio gydag undebau llafur a chyrff gweithwyr/cyflogwyr eraill i godi proffil yr uned a chodi ymwybyddiaeth o fenthyg arian yn anghyfreithlon. Y mae'r uned ar hyn o bryd yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) i ymdrin â'r mater hwn, ond bu ymwneud ag undebau llafur a chyrff eraill yn fwy o her. Holodd y Swyddog Cyswllt Cleientiaid  yr aelodau a oedd ganddynt gysylltiadau gydag undebau llafur ac ati, ac os felly a fyddai modd iddynt eu rhannu gyda hi a'r uned er mwyn creu gwell cysylltiadau. Ffurfiwyd cysylltiadau hefyd gyda  phantris cymunedol a banciau bwyd yn y de, a chynhaliwyd hyfforddiant gyda hwy er mwyn helpu staff yn y canolfannau hyn i adnabod cleientiaid a allai fod yn dioddef ar law siarcod benthyg arian.
- Gofynnodd y Cynghorydd Perkes am osod llenyddiaeth megis posteri, taflenni, etc. mewn adeiladau cyhoeddus, busnesau a mannau eraill yn y Fro am SSBAC, er mwyn estyn allan at drigolion nad oeddent yn gallu cyrchu'r cyfryngau cymdeithasol, ac a oedd gan yr uned gyllideb ar gyfer hyn. Yr oedd gan yr uned gyllideb fechan a'r gallu i gynhyrchu a dosbarthu copïau caled o daflenni a phosteri, ac yr oedd y rhain wedi eu defnyddio fel rhan o'r ail-lansio diweddar. Cawsant eu dosbarthu mewn ardaloedd lle'r oedd amheuaeth fod siarcod benthyg arian ar waith. Byddai mannau fel llyfrgelloedd, meddygfeydd a derbynfeydd landlordiaid cymdeithasol hefyd yn ddefnyddiol i arddangos taflenni a phosteri. Ychwanegodd y Cynghorydd Perkes mai da o beth fyddai estyn allan i ysgolion a llywodraethwyr ysgolion i godi ymwybyddiaeth am SSBAC.  Dywedodd y Swyddog Cyswllt Cleientiaid  y byddai hi'n fwy na pharod i ymwneud ag ysgolion, etc, a'i bod hi a'r uned yn wastad yn awyddus i godi ymwybyddiaeth a hyfforddi gwahanol gyrff a grwpiau cymunedol ym Mro Morgannwg.
- Ar gwestiwn y Cynghorydd Buckley am osod blychau llythyrau diogel rhag tân i ddioddefwyr  gweithgareddau siarcod benthyg arian, cadarnhawyd fod y Gwasanaeth Tân yn helpu gyda gosod y rhain.

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried y cyflwyniad, wedi hynny

ARGYMHELLWYD – NODI'R cyflwyniad ynghylch Atal Siarcod Benthyg Arian Cymru.

Y rheswm dros yr argymhelliad

Wedi ystyried cynnwys y cyflwyniad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

596 CEFNOGAETH COSTAU BYW AR GYFER BWYD, MANNAU CYNNES A DULLIAU CEFNOGI ERAILL (CYF) –

Cyflwyniad y cyfeiriad o'r Cabinet ar 15 Rhagfyr, 2022 gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol. Y bwriad oedd codi ymwybyddiaeth o'r gwahanol fathau o gefnogaeth oedd ar gael gan y Cyngor a'i bartneriaid am yr argyfwng costau byw, tlodi bwyd a thanwydd, a meysydd angen eraill i drigolion Bro Morgannwg. Yr oedd hefyd yn ymateb i adroddiad diweddar Archwilio Cymru 'Amser newid – tlodi yng Nghymru', a cheisiwyd barn yr Aelodau am yr ymateb.

Amlinellwyd yr heriau economaidd a rhai cysylltiedig eraill oedd yn wynebu'r Cyngor ac awdurdodau lleol eraill yn y DU, y rhoddwyd manylion amdanynt hefyd yn Astudiaeth Genedlaethol Archwilio Cymru, Asesiadau Effaith Cymunedol cyfnod COVID, Asesiadau Effaith Economaidd ac Asesiad Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC). Ymysg yr heriau hyn yr oedd ansicrwydd bwyd cynyddol a phwysau oherwydd y cynnydd mewn costau byw.

Amlinellwyd yr amrywiol grantiau a chynlluniau cysylltiedig, gan gynnwys mudiadau cefnogi bwyd fel y Bocsys Bwyd Mawr gyda modelau 'talu faint fedrwch' ochr yn ochr â Banciau Bwyd y Fro sydd yn rhoi cefnogaeth hanfodol mewn argyfyngau. Hefyd, yn y flwyddyn ariannol flaenorol, derbyniodd y Cyngor gyllid o ychydig dan £100,000 gan Lywodraeth Cymru (LlC) a thrwy gymdeithas Llywodraeth leol Cymru (CLlLC) Aeth hyn i nifer o ffrydiau cyllido, gan gynnwys cefnogaeth i fentrau bwyd mewn ysgolion, a mentrau eraill megis Pod Bwyd Penarth (a redir gan Dîm Tai y Cyngor), yn ogystal â Banciau Bwyd y Fro. Helpodd yr arian y Cyngor hefyd i greu a dosbarthu dros 1,200 o barseli bwyd a nwyddau hylendid hanfodol, ar y cyd â phartneriaid fel Pobl ac Atal y Fro. Llwyddodd y Cyngor hefyd i sicrhau £100,000 o arian y Loteri Genedlaethol, ar y cyd â phartneriaid, er mwyn ehangu ystod y gwasanaethau sydd ar gael yng Nghanolfan Gymunedol CF61 yn Llanilltud Fawr, a phrosiect Hwb Mwy na Bwyd.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr hefyd at sefydlu Grŵp Costau Byw trawsadrannol er mwyn gwneud yn siŵr fod y gwerth mwyaf yn cael ei gyflwyno ac i roi ffurf strategol ar ymateb y Cyngor i'r argyfwng.

Amlygwyd y gwaith oedd yn cael ei wneud gan y Cyngor ar Gynllun Costau Byw LlC, gyda 36,000 o aelwydydd wedi derbyn cefnogaeth hyd yma dan y cynllun. Yr oedd Cynllun Tanwydd y Gaeaf hefyd yn cael ei brosesu trwy'r Cyngor, a thalwyd bron i 9,000 o bobl hyd yma.

Byddid yn darparu mwy o wybodaeth am ffrydiau cyllido i'r Pwyllgor gan y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu, er y gellid cadarnhau ar hyn o bryd fod y Cyngor wedi derbyn cyfanswm o £166,000 o gyllid ychwanegol, ac wedi ymrwymo ychydig dan £159,000 o'r arian.

Yr oedd yr arian wedi helpu i brynu stoc o fwyd a chefnogi banciau bwyd mewn cyfnod pan oedd swm y rhoddion yn lleihau, yn ogystal â helpu i sefydlu banciau bwyd untro a chefnogi gweithdai cymunedol ar goginio.

Crybwyllwyd Prosiect 'Croeso Cynnes', oedd yn golygu talu am sefydlu rhwydwaith o 'fannau cynnes' ledled Bro Morgannwg (yr oedd 33 o lefydd felly ar hyn o bryd) lle gallai pobl fynd, dilyn gwahanol weithgareddau a chael cefnogaeth neu gyngor. Lansiwyd tudalen we Croeso Cynnes ar wefan y Cyngor, oedd yn cynnwys map rhyngweithiol sy'n caniatáu i drigolion chwilio am fan cynnes yn agos gerllaw, ac yr oedd yn rhoi gwybodaeth am yr oriau agor a pha weithgareddau fydd ar gael.

Crybwyllwyd ystod y mathau eraill o gefnogaeth oedd yn cael ei gynnig gan y Cyngor a'i bartneriaid, gan gynnwys y tudalennau gwe Costau Byw, codi proffil cyhoeddus y Prosiect Mannau Cynnes, hyd at roi Cyflog Byw Gwirioneddol i staff y Cyngor.

Mewn ymateb i adroddiad Archwilio Cymru ar dlodi yng Nghymru a'i argymhellion, oedd yn cynnwys y dylai awdurdodau lleol gynhyrchu strategaethau sy'n ymdrin â thlodi yn eu hardaloedd a mesur eu perfformiad, roedd y Cyngor wedi drafftio cynllun rheoli neu fframwaith oedd yn gosod allan pa gamau y bwriada'r Cyngor eu cymryd, gan neilltuo swyddog cyfrifol a dyddiad i gyflawni'r gweithgareddau hyn.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog, cododd y Pwyllgor y cwestiynau a'r sylwadau a ganlyn:

- Tynnodd y Cynghorwyr Campbell a Carroll sylw'r Pwyllgor at yr ardaloedd hynny yn y Fro lle nad oedd y grwpiau neu'r gwirfoddolwyr o raid ar gael i gyrchu'r cyllid hwn er mwyn darparu cefnogaeth neu fannau i helpu gyda chostau byw, ac a oedd o'r herwydd angen cefnogaeth bellach i'w sefydlu. Dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol y byddai'n trefnu trafodaethau pellach gyda'r ddau Gynghorydd i ymdrin â'u pryderon a gweld beth y gellid ei wneud i ehangu'r gefnogaeth berthnasol yn eu wardiau. Esboniodd mai'r rhesymeg i ddechrau dros sefydlu'r mannau cynnes oedd i'w cael mewn ardaloedd lle'r oedd cyfleusterau eisoes yn bod a lle gellid eu rhoi ar waith yn fuan.
- Ar gwestiwn y Cynghorydd Perkes am ddata perfformiad ynglŷn â defnyddio'r gwahanol wasanaethau cefnogi a'u demograffeg, esboniwyd y byddai gwybodaeth o'r fath yn cael ei gasglu, ond y byddai'n rhaid gwneud hyn â 'chyffyrddiad ysgafn' rhag rhoi gormod o faich ar y gwirfoddolwyr oedd yn rhedeg y mannau cynnes, etc.  hefyd, byddid yn casglu astudiaethau achos er mwyn gweld pa grwpiau oedd angen cefnogaeth a sut orau i'w ddarparu.
- Dywedodd y Cynghorydd Morgan fod y Prosiect Mannau Cynnes yn fenter wych, ond ei bod yn bwysig i'r trigolion hŷn neu fwy bregus oedd heb fynediad at wybodaeth arlein neu a oedd yn gyndyn i fynychu, naill ai yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'r gefnogaeth neu yn cael eu hannog i'w ddefnyddio trwy ddulliau mwy traddodiadol. Esboniwyd, yn ogystal â gwefan y Cyngor a'r

cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth costau byw, fod taflenni gwybodaeth, posteri a baneri hefyd wedi eu cynhyrchu a'u dosbarthu mewn cymunedau lleol o gwmpas y Fro. Ar sylw pellach y Cynghorydd am ddefnyddio mannau cynnes wedi'r gaeaf fel mannau i'r bobl hynny oed dyn teimlo'n unig, yn ynysig neu yn fregus, er mwyn cael cyswllt cymdeithasol yn ogystal â mathau eraill o gefnogaeth, yr oedd y Cyngor yn ystyried hyn er mwyn adeiladu ar waddol mannau cynnes a chefnogaeth gyda chostau byw. Yn Llanilltud Fawr, yr oedd prosiect yn ymdrin â hunan-ynysu yn cael ei gynnal ar y cyd ag Age Connect a Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GGM).

- Ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros Gymdogaethau a Gwasanaethau Adeiladu fod y mannau cynnes a chefnogaeth arall i gostau byw yn brosiectau hanfodol yr oedd eu mawr agen yn y Fro. Yn ogystal â bwydo trigolion a'u cadw'n gynnes, yr oedd y mannau hyn hefyd yn helpu i leihau ynysu cymdeithasol. Yr oedd yn bwysig hefyd i denantiaid y Cyngor ddod i gysylltiad â'r Cyngor pan fyddai ganddynt broblemau gyda bwyleri a gwresogyddion.
- Adleisiodd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd y pwyntiau a wnaed gan y Pwyllgor ac eraill am bwysigrwydd defnyddio'r gefnogaeth costau byw a'r mannau cynnes i leihau unigrwydd a gwella lles meddyliol, yn ogystal â'r angen i ehangu'r gwasanaethau hyn ymhellach yn y Fro, ac i ymestyn eu defnydd wedi'r gaeaf.

Pwyllgor, ar ôl ystyried cyfeirnod ac adroddiad y Cabinet, wedi hynny

ARGYMHELLWYD – BOD sylwadau canlynol y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel yn cael eu cyfeirio gyda'r adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w hystyried, gyda barn y Pwyllgor hefyd yn cael ei chyfeirio yn ôl i'r Cabinet fel rhan o'i ystyriaeth o gamau gweithredu'r Cyngor mewn ymateb i waith Archwilio Cymru:

- Roedd yn bwysig i'r Cyngor edrych ar godi'r ymwybyddiaeth yn ogystal ag ehangu'r ddarpariaeth o ofodau cynnes a gwasanaethau cysylltiedig ledled Bro Morgannwg, ac edrych ar ddyfnhau cefnogaeth o'r fath, h.y. darparu gwasanaethau sy'n delio ag unigedd, a chefnogi trigolion a chymunedau bregus.

<u>Y rheswm dros yr argymhelliad</u>

Er mwyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cabinet allu ystyried barn y Pwyllgor fel rhan o'u hystyriaeth o gamau gweithredu'r Cyngor mewn ymateb i Adroddiad Archwilio Cymru.

597 DIWEDDARIAD AR GYNLLUN GWEITHREDU'R STRATEGAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL (CAT) –

Cyflwynwyd yr adroddiad ar y cyd gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai ac Adeiladu a'r Prif Swyddog Diogelwch Cymunedol. Ei bwrpas oedd ystyried cyfoesiadau a chynnydd Cynllun Gweithredu Strategaeth y Fro Ddiogelach.

Fel cefndir, yr oedd y Tîm Diogelwch Cymunedol (TDC) yn cydgordio gweithgareddau diogelwch cymunedol ledled Bro Morgannwg gyda mudiadau eraill sy'n bartneriaid statudol dan ambarél Partneriaeth y Fro Ddiogelach. O ran Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Diogelwch Cymunedol ei hun, yn dilyn ail-strwythuro Partneriaeth y Fro Ddiogelach yn 2019, datblygwyd Strategaeth a Chynllun Gweithredu 3-blynedd, gyda 4 maes blaenoriaeth strategol allweddol.

Yr oedd y Bartneriaeth, gyda'r TDC, yn cynnal Cynllun Cyflwyno'r Bartneriaeth fyddai'n cael ei adolygu yn rheolaidd, ac yn cadw golwg ar sut yr oedd y Bartneriaeth yn perfformio, yn ogystal â nodi unrhyw fylchau yn ei wasanaethau.

Oherwydd natur eang diogelwch cymunedol, torrwyd y Cynllun Gweithredu i lawr yn 4 categori er mwyn canoli'n well ar feysydd blaenoriaeth Partneriaeth y Fro Ddiogelach, oedd yn cynnwys: 'Atal a Lleihau Trosedd ac Anhrefn'; 'Ymwneud'; 'Diogelu' a 'Gweithio Ynghyd '.

Crybwyllodd yr adroddiad y cynnydd ers Cynllun Gweithredu diwethaf Strategaeth y Fro Ddiogelach am y cyfnod ers y cyfoesi diwethaf gan y Pwyllgor Craffu yn Nhachwedd 2021: derbyniodd 82% o'r camau a amlinellwyd yng Nghynllun Gweithredu'r Bartneriaeth raffa perfformiad Gwyrdd sydd yn adlewyrchu'r cynnydd cadarnhaol a wnaed yn ystod y cyfnod. Hefyd cafodd 18% o gamau raddfa perfformiad Oren ac ni dderbyniodd yr un raddfa perfformiad Coch. Yn rhannol, yr oedd y graddfeydd Oren i'w priodoli i lai o ymwneud cymunedol oherwydd y pandemig / cyfnod clo, a'r angen i ail-gyfeirio adnoddau i atal a lleihau trosedd ac anhrefn yn ystod y cyfnod hwn. Fel rhan o 'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu newydd, byddai hunaniaeth Partneriaeth y Fro Ddiogelach yn cael ei gryfhau er mwyn hwyluso mwy o ymwneud â'r gymuned.

Hysbyswyd y Pwyllgor am nifer o ganlyniadau cadarnhaol dan y 4 maes blaenoriaeth, e.e., dan 'Atal a Lleihau Trosedd ac Anhrefn', ail-gomisiynwyd gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ledled y Fro, i'w gwneud yn haws i bobl fynd at y math hwn o gefnogaeth. Roedd y Bartneriaeth wedi llwyddo i brosesu 1,175 o ddigwyddiadau o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YG) yn nau chwarter cyntaf 2022- 2023, gyda chyfanswm o 725 o gyfeiriadau, yn ogystal â llwyddo i brosesu a chydgordio 273 o gyfeiriadau Hysbysiad Gwarchod y Cyhoedd (HGC) safonol a chanolig camdriniaeth ddomestig. Dan 'Ymwneud', ail-sefydlwyd y Grŵp Cydlynu Cymunedol er mwyn cryfhau ei agenda a'i gylch gorchwyl. Dan 'Diogelu', hyfforddwyd cryn nifer o staff y Cyngor dan y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol o ran adnabod a chyfeirio yn llwyddiannus unigolion a ddaethai i gysylltiad â dioddefwyr camdriniaeth ddomestig. O dan flaenoriaeth 'Gweithio Ynghyd', cafwyd cryn gynnydd wrth uwchraddio TCC yn y Fro, a'r nod oedd i'r cyfoesi gael ei gwblhau yn gynnar yn y gwanwyn.

Yr oedd Cynllun Gweithredu Partneriaeth y Fro Ddiogelach yn ddogfen waith ac yn eitem sefydlog ar agenda Grŵp Gweithredol y Fro Ddiogelach. Yr oedd felly yn cael ei adolygu'n barhaus a'i gyfoesi yn ôl y galw. Roedd Partneriaeth y Fro Ddiogelach wedi dechrau gweithio ar Strategaeth a Chynllun Cyflwyno nesaf Partneriaeth y Fro Ddiogelach fyddai'n cael ei lansio ym mis Ebrill 2023. Y disgwyl oedd y byddai'r Strategaeth nesaf yn ymestyn dros gyfnod o bum mlynedd, er mwyn datblygu ei

nod yn llawn a monitro/mesur deilliannau yn llawn. Byddai'n cael ei adolygu'n flynyddol.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog, cododd y Pwyllgor y cwestiynau a'r sylwadau a ganlyn:

- Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn beth da gweld uwchraddio TCC yn fuan ledled y Fro, fyddai'n help i fynd i'r afael a throseddau ac YG yn ardal y Fro.
- Mewn ateb i gwestiwn y Cynghorydd Avie ar raglen PREVENT ac enghreifftiau i weithgaredd gan yr aden dde eithafol, troseddau casineb neu derfysgaeth, esboniwyd y byddai digwyddiadau o'r fath yn cael eu cyfeirio at Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru (UEGDC), a bod gan Bartneriaeth y Fro Ddiogelach gysylltiadau agos â'r uned. Hefyd yr oedd y Bartneriaeth yn cadw cronfa ddata i helpu i fonitro hyn. Ar gwestiwn arall y Cynghorydd am gamdriniaeth ddomestig a'r gwasanaeth i droseddwyr, cyfeiriad oedd hwn at Brosiect Drive, oedd ar gael ar hyn o bryd yn unig i droseddwyr trais domestig risg-uchel. Y nod oedd ymdrin â'u hymddygiad a materion cysylltiedig, e.e., mynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol neu sylweddau, tra'n amddiffyn ac yn cefnogi dioddefwyr camdriniaeth ddomestig. Bu'r Prosiect yn eithaf llwyddiannus, a'r gobaith oedd y byddai'r cyllid am y gwasanaeth hwn yn cael ei ymestyn i droseddwyr lefel safonol a chanolig yn y dyfodol.
- Ar ymholiad y Cynghorydd Perkes am pa mor aml yr oedd 'cogio' yn digwydd yn y Fro (lle mae cartref person bregus yn cael ei gymryd drosodd gan droseddwyr i gyflawni gweithgareddau anghyfreithlon), esboniwyd mai problem gymharol fach oedd hon yn y Fro, ond lle byddai'n digwydd, y byddai'r Bartneriaeth yn defnyddio mesurau i warchod a chefnogi dioddefwyr cogio. Cynhaliwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth hefyd i staff y Cyngor er mwyn gallu adnabod pobl a allai fynd yn ysglyfaeth i'r math hwn o weithgarwch, ac yr oedd yn bwysig i arweinwyr cymunedol a grwpiau trigolion hefyd fod yn ymwybodol o gogio a'i adnabod, a gweithgareddau eraill fel YG.
- Yr oedd y Cynghorydd Hanks yn edrych ymlaen at gwblhau uwchraddio'r TCC, a holodd a oedd y Bartneriaeth wedi gweithio gyda Network Rail i fynd i'r afael ag YG. Cadarnhawyd fod y Bartneriaeth yn gweithio gyda'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (HTP) i daclo YG mewn gorsafoedd rheilffordd, a hefyd byddai'r HTP yn mynychu cyfarfodydd Partneriaeth y Fro Ddiogelach.

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad, wedi hynny

ARGYMHELLWYD – BOD y cynnydd hyd yma ar weithredu Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Bro Ddiogelach yn cael ei nodi.

<u>Y rheswm dros yr argymhelliad</u>

Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.